

Angen meddwl o ddifrif am atebion lleol i broblem ynni?

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn dadlau bod cwestiwn pwysicach hyd yn oed na pha fath o ynni yr ydym eisiau ...

YNG ngeiriau'r hen gân, 'Mae rhywbeth bach yn poeni pawb'. Wel, rhywbeth mawr a dweud y gwir - cost tanwydd.

Mae'n gebyst o ddrud ac, i lawer un, mae'n anodd fforddio cynhesu tŷ neu fynd yn y car.

Mae'r gost uchel yn rhannol yn adlewyrchu'r galw byd-eang am ynni, ffactorau fel y cwmp yng ngwerth y bunt, sybsideiddio ynni 'gwyrdd' a threthi. Mae'r problemau wedi'u plethu i'w gilydd.

Felly, o ble daw ein hynni yn y dyfodol? Beth fydd ei gost? A sut mae ei gael heb wneud drwg mawr i'n planed?

Er bod yna storffeydd sylweddol o nwy ac olew a glo o hyd, mi fyddai eu defnyddio yn achosi newidiadau mawr yn ein hinsawdd, cynnydd yn lefel y môr (hyd at ddegau o fetrau mewn canrifoedd) ac, yn fy nhyb i, derfysgoedd byd-eang.

DOES DIM DEWISIADAU HAWDD, DI-BOEN

Mae'r cystadlu am adnoddau ac ynni hefyd yn rhwym o godi prisiau'n llawer uwch. Mae China ac India a gwledydd eraill yn codi pwerdai a ffatrïoedd fel rhesi tatws ac mae poblogaeth y byd yn dal i dyfu - 9 i 10 biliwn erbyn canol y ganrif efallai.

Beth felly ydi'r dewisiadau? Ynni niwclear megis Wylfa B neu forglawdd ar draws aber Hafren? Bachu'r CO₂ o orsafoedd trydan confensiynol neu ffermydd gwynt anferth, neu ffynonellau eraill o ynni adnewyddadwy?

Y peth cyntaf ydi cydnabod nad oes yna ddewisiadau hawdd, di-boen, digost hyd yn oed ar ôl mabwysiadu arferion mwy call a chynnil ac ynysu ein tai etc. Rhaid lleihau lefelau'r nwyon yr yden ni'n eu gollwng o fwy nag 80% erbyn 2040 i osgoi cyflafan, gan gynnwys y nwyon o'r gadwyn fwyd.

Yn ail, nid problem drydan yn unig ydi hon - dim ond 20% o'n hynni sy'n drydan, er bod disgwyl i'r canran godi ar ôl i ni drydaneiddio ceir a threnau.

Mae rhai'n gryf o blaid ynni niwclear. Ond dydi hwnnw ddim yn rhad, yn enwedig o ystyried cost dadgomisiynu a gwarchod y gwastraff peryg ac ymbelydrol - nid am ddegawdau ond am filoedd o flynyddoedd.

Dydi hanes y ddynoliaeth ddim yn argyhoeddi bod cymdeithasau yn sefydlog a gwar am amser mor faith. Ac mewn byd mwy tymhestlog oherwydd newid hinsawdd, a fyddai risg mwy o ddamwain neu ymyrraeth derfysgol?

ANGEN YSTYRIED ADNODDAU LLEOL

Dim ond cwmnïau mawr rhyngwladol all ymgymryd â chodi atomfeydd. Ac, felly, mae'r ddadl am ynni niwclear, a morglawdd Hafren o ran hynny, yn cuddio dadl fwy sylfaenol. Pwy ddylai fod yn gyfrifol am ein hadnoddau a'r defnydd ohonyn nhw?

Oes gynnwys ni 'hawl' i ddisgwyl i'r 'awdurdodau' bondigrybwyll ddigoni ein galwadau am ynni? Ai canlyniad anochel hynny ydi ein bod yn ymddiried mewn cwmnïau mawr ac yn gaeth i'r farchnad ryngwladol?

Neu a ddylen ni ddechrau meddwl o ddifri ar lefel leol, yn unigolion, pentrefi neu ardaloedd – meddwl sut i ddefnyddio ein hadnoddau lleol i gyflenwi ein galwadau ni ein hunain am ynni?

Wedyn, mi fyddai pawb yn llawer mwy ymwybodol o'r dewisiadau caled, o'n gwastraff ynni, o be'n union ydi'r adnoddau lleol a sut i'w defnyddio nhw i godi arian i'n cymunedau a'u cryfhau nhw.

[Golwg, Mawrth 7, 2013]